*This document is available in English* **Eitem Agenda** 06

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Asesiad o Berfformiad Blynyddol 2023/24** |

MEWN CYFYNGDER · YR · GELWAIST

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 i aelodau Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân ac Achub.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol wedi'r flwyddyn ariannol dan sylw.

3 Mae darpariaeth o fewn Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol o'u cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion llesiant.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Ar 16 Medi 2024 cyflwyniad yr Asesiad Perfformiad Blynyddol (APA) i Banel Gweithredol yr Awdurdod, lle y'l nodwyd a'i gymeradwyo i ddod i'r Awdurdod Llawn ar 16 Hydref 2023.

**ARGYMHELLIAD**

5 Bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer cyfnod 2023/24; ac yn
ii) cymeradwyo'r Asesiad Blynyddol o Berfformiad 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub.

**CEFNDIR**

6 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn hunanasesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion gwelliant (Mesur 2009) a Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) y flwyddyn flaenorol.

7 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub hyblygrwydd i ddewis sut y byddant yn adrodd ar eu perfformiad, ond er mwyn sicrhau cysondeb o ran adrodd ac atebolrwydd, argymhellir bod pob adroddiad yn cynnwys:

- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r ATA wedi'u defnyddio er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, fel sydd wedi'i nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Asesiad cryno o farn yr ATA ynghylch ei lwyddiant wrth fodloni ei amcanion gwella, fel sydd wedi'u nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Datganiad o berfformiad ar sail yr holl Ddangosyddion Perfformiad statudol, p'un a ydynt yn ymwneud â'r amcanion gwella yn uniongyrchol neu ddim;

- Manylion eraill ynghylch gwybodaeth am berfformiad a'i defnydd, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a ffynonellau gwybodaeth ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi;

- Asesiad o berfformiad trwy gymhariaeth â pherfformiad yr ATA mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gymharu â chyrff cyffelyb eraill (gan gynnwys ATA eraill), i'r graddau y bo hyn yn ymarferol;

- Manylion am y ffyrdd y mae'r ATA wedi arfer ei bwerau cydweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan nodi a yw gweithgareddau cydweithredol wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd; ac

- Unrhyw ddatganiadau o weithgareddau a gyhoeddwyd gan yr ATA mewn ymateb i adroddiadau a gyhoeddwyd iddynt gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 19 y Mesur yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

**GWYBODAETH**

8 Mae dyluniad yr Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu fersiynau blaenorol o'r asesiad yn ystod cyfnod Cynllun Corfforaethol 21-24. Bydd dyluniad Asesiad Perfformiad Blynyddol 24-25 yn adlewyrchu dyluniad 'Ein 5 Egwyddor'.

9 Gan mai dyma’r olaf o dair blynedd y cynllun, mae trosolwg o'r cynnydd a wnaed dros oes y cynllun wedi’i gynnwys ynghyd â'r diweddariad blynyddol ar gynnydd.

10 Mae’r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a’r Saesneg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |